# Gwerthusiad o Gynllun Panel Cefnogi Ailsefydlu'r BCI

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb Ymchwil | Ymchwil cymdeithasol | Rhif: 13/2012

Ariannodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) chwe Thîm Troseddau Ieuenctid (YOTs) yng Nghymru i ehangu ailsefydlu i bobl ifanc rhwng 12 a 17 oed oedd yn gadael caethiwed. O dan y cynllun peilot, sefydlwyd Paneli Cefnogi Ailsefydlu (RSPs) i hwyluso'r defnydd o waith amlasiantaeth i gefnogi ailsefydlu pobl ifanc ac i atal pobl ifanc rhag mynd yn ôl i mewn i gaethiwed. Roedd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, problemau llety, materion iechyd meddwl, ac anghenion addysg neu gyflogaeth yn ogystal â chyfryngu gyda theuluoedd a chymheiriaid, ac annog defnydd mwy priodol o amser hamdden. Cynhaliwyd astudiaethau achos o'r dulliau gweithredu, a dadansoddwyd deilliannau i bobl ifanc, o'u cymharu â grŵp cymhariaeth.

**Canfyddiadau**:

Ymgymerwyd â chymhariaeth o aildroseddu a dangosyddion eraill drwy sgoriau Asset y bobl ifanc oedd wedi cymryd rhan yn y cynlluniau ailsefydlu peilot, o'u cymharu ag eraill â'r un nodweddion cefndir. Fodd bynnag, roedd hyn yn anodd o ganlyniad i faterion cyrchu data, ei gyflawnrwydd a'i gymaradwyedd, a'r ffaith fod y bobl ifanc yn derbyn cefnogaeth ailsefydlu arall, nid o reidrwydd drwy'r cynlluniau peilot. Dengys y data fod cyfraddau caethiwed wedi gostwng ym mhob ardal astudiaeth achos, ac roedd tystiolaeth ansoddol gref i awgrymu fod pobl ifanc wedi elwa o'r gwaith ailsefydlu a gynhaliwyd drwy'r cynlluniau peilot.

**Crynodeb o argymhellion**

- Dylid cynrychioli YOTs, yr heddlu, darparwyr tai cymdeithasol, gwasanaethau cymdeithasol, CAMHS a darparwyr addysg ar RSPs.
- Mae angen cydgysylltu â'r ystâd ddiogel a dylid arwain hyn gan aelod o staff dynodedig.
- Dylid defnyddio cyllid ailsefydlu dynodedig i gwrdd ag anghenion pob person ifanc unigol ond ni ddylai ddisodli cefnogaeth y mae gan y bobl ifanc yr hawl i'w derbyn gan ffynonellau eraill.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

**Argymhellion (parhad)**

**Y corff adolygu**

- Dylai effeithiolrwydd gwaith ailsefydlu gael ei adolygu yn systematig gan bob YOT unigol yn seiliedig ar asesiad o achosion penodol. Dylai'r gwaith hwn gynnwys a yw'r holl asiantaethau perthnasol yn cwrdd â chyfrifoldebau'n llawn.

**Y Gweithwyr Cefnogi Ailsefydlu a Gweithwyr Cefnogi Goruchwylio**

- Dylai gwaith unigol un i un gyda phobl ifanc fod yn sylfaen i waith ailsefydlu ond dylid pennu'r union fodel ar gyfer gwneud hyn a natur y personél fydd yn cymryd rhan, yn lleol. Dylai hyn fod o fewn fframwaith cenedlaethol o ddisgwyliadau am swyddogaeth a phwrpas gwaith ailsefydlu.
- Dylai ffocws gwaith ailsefydlu barhau ar sicrhau fod anghenion y bobl ifanc yn cael eu cwrdd. Dylai hyn gynnwys brocera, cynorthwyo pobl ifanc i gyrchu gwasanaethau a chefnogaeth ymarferol.
- Dylai gwaith yr aelod o staff sy'n arwain ar ailsefydlu fod ar wahân i waith personél y mae eu rolau yn ymwneud â'r ddedfryd a osodwyd ar y person ifanc.
- Dylai staff sy'n arwain ar ailsefydlu ymgysylltu â'r bobl ifanc yn gynnar yn ystod eu hymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid, gan ddechrau yn ystod yr Adolygiad Cyn-dedfrydu.
- Dylai ffocws ar hybu hunanhyder a hunanwerth ymysg y bobl ifanc fod yn ganolog i'r broses ailsefydlu.

**Deilliannau i bobl ifanc**

- Dylai YOTs archwilio'r amrywiaeth bresennol o weithgareddau dargyfeiriol a gynigiwyd yn eu hardaloedd er mwyn osgoi dyblygu.
- Dylai YOTs gaslgu data Asset a data arall ar sail fwy systematig a chynhwysfawr. Mae cwblhau'r asesiad yn llawn yn hanfodol er mwyn i benderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth ac adolygu effeithiol ddigwydd yn y dyfodol.

## Trosolwg o astudiaethau achos a chasgliadau

Roedd y modelau gweithredu a ddefnyddiwyd gan y chwe YOT yn amrywio ac wedi'u cynllunio'n lleol i gwrdd ag anghenion y bobl ifanc ym mhob ardal. Defnyddiodd pedwar YOT baneli oedd ganddynt eisoes a sefydlodd dau gyrff newydd. Adolygodd RSPs eu gwaith yn rheolaidd a gwnaeth dau ohonynt hynny fel rhan o'u Proses Adolygu Uwch.

Roedd aelodaeth RSP ar y cyfan yn cynnwys staff YOT, yr heddlu, cynrychiolwyr tai, CAMHS, sefydliadau diogelwch cymunedol a darparwyr addysg a hyfforddiant.

Yn gyffredinol, roedd aelodau'n teimlo fod RSPs yn gweithio'n effeithiol. Roedd y rheiny oedd y mynychu cyfarfodydd ag awdurdod digonol i gyfrannu'n effeithiol at waith RSPs ac i ymrwymo adnoddau i gwrdd ag anghenion pobl ifanc. Fodd bynnag, roedd ymgysylltiad asiantaethau gwahanol yn amrywio. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr holl sefydliadau yn cefnogi ailsefydlu yn gyfartal.

Er nad oedd pob YOT yn defnyddio RSWs dynodedig, mewn pob achos roedd aelod o staff yn gyfrifol am ailsefydlu. Roedd yr RSWs yn canolbwyntio ar waith un i un gyda'r bobl ifanc, er yn un YOT gweithiodd yr RSW gyda grwpiau o bobl ifanc.

Roedd RSWs neu staff cyfatebol fel arfer yn dod o gefndir YOT, gwaith ieuenctid neu waith cymdeithasol.

Roedd y dull cyflwyno a'r trefniant staffio yn llai pwysig nag ansawdd a natur y gwaith  a wnaed i gefnogi ailsefydlu pobl ifanc. Er mwyn bod yn llwyddiannus roedd angen i waith ailsefydlu fod ar wahân ac nid yn rhywbeth yr oedd yn rhaid i'r bobl ifanc ei wneud fel rhan o'u dedfryd. Roedd gwaith ailsefydlu llwyddiannus yn cyd-weddu â'r gwaith a wnaed gan bersonél YOT eraill, ond aeth at y bobl ifanc o safbwynt penodol a gwahanol.

Roedd math y gwaith a ymgymerwyd gan RSWs yn y chwe ardal astudiaeth achos yn amrywio. Roedd ei brif ffocws ar gefnogi'r bobl ifanc, cyfryngu ar eu rhan a brocera cefnogaeth gan wahanol asiantaethau i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu cwrdd. Roedd hyn yn cynnwys eu helpu i

gyrchu eu hawliau o safbwynt budd-daliadau a llety, sicrhau bod cefnogaeth asiantaethau eraill yn briodol (er enghraifft bod tai yn addas a bod darparwyr addysg a hyfforddiant yn adnabod eu hanghenion) a chyfryngau gyda theuluoedd a ffrindiau.

Mewn rhai YOTs roedd y gwaith yn cynnwys gweithgareddau dargyfeiriol ac mewn un defnyddiwyd y cyllid i brynu eitemau yr oedd eu hangen ar bobl ifanc i gefnogi byw yn y gymuned.

Ymgymerwyd â chymhariaeth o aildroseddu a dangosyddion eraill drwy sgoriau Asset y bobl ifanc oedd wedi cymryd rhan yn y cynlluniau ailsefydlu peilot o'u cymharu ag eraill â'r un nodweddion cefndir. Fodd bynnag, roedd hyn yn anodd oherwydd problem cyrchu data, ei gyflawnrwydd a'i gymaradwyedd, a'r ffaith fod pobl ifanc yn derbyn cefnogaeth ailsefydlu arall, nid o reidrwydd drwy'r cynlluniau peilot. Dengys y data fod cyfraddau caethiwed wedi gostwng ym mhob ardal astudiaeth achos, ac roedd tystiolaeth ansoddol gref i awgrymu fod pobl ifanc wedi elwa o'r gwaith ailsefydlu a wnaed drwy'r cynlluniau peilot.

## 5. Astudiaethau Achos

### YOT 1

Ymgysylltodd y gweithiwr ailsefydlu gyda phobl ifanc o'r cam Adolygiad Cyn-dedfrydu ymlaen. Roedd y defnydd o banel ailsefydlu oedd yn bodoli eisoes wedi gwella gwaith amlasiantaeth ynghylch ailsefydlu effeithiol. Roedd y defnydd o'r gefnogaeth yn siomedig. Gostyngodd lefelau aildroseddu ymysg pobl ifanc yn ystod y cynllun peilot ac roedd ailsefydlu wedi'i drefnu'n well o ganlyniad i'r RSP.

### YOT 2

Roedd yr RSW yn gyn reolwr achos YOT gyda dealltwriaeth dda o ailsefydlu a'r ardal leol. Roedd yn eiriol ac yn cyfryngu ar ran y bobl ifanc ac yn brocera gwasanaethau yr oedd eu hangen arnynt. Helpodd y gwaith hwn i ddatrys problemau llety a gwella mynediad i addysg a hyfforddiant. Cryfhaodd yr RSP bartneriaethau a defnyddiwyd adnoddau yn ôl yr angen yn unigol gan sefydliadau perthnasol.

### YOT 3

Gweithiodd yr RSW yn uniongyrchol â'r bobl ifanc ar sail

un i un i gwrdd â'u hanghenion a chydlynu'r gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt. Ymgysylltodd y bobl ifanc â'r gwasanaethau cefnogi a'r gweithgareddau a gynigiwyd iddynt a chawsant eu helpu i ymgymryd ag ystod o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth drwy'r cynllun peilot. Roedd yr RSP yn yr ardal hon wedi gwella gwaith partneriaeth er bod problemau ynghylch dyrannu adnoddau.

**YOT 4**

Yn yr YOT hwn, defnyddiwyd paneli oedd yn bodoli eisoes fel sail ar gyfer RSPs lefel strategol a lefel weithredol ar wahân. Roedd staff oedd eisoes mewn swyddi yn cyflwyno'r gefnogaeth ailsefydlu. Defnyddiwyd peth o'r cyllid ailsefydlu i brynu eitemau oedd yn cwrdd ag anghenion brys pobl ifanc. I gychwyn, roedd gwahaniaethau yn y graddau yr oedd partneriaid yn ymrwymo adnoddau i gefnogi ailsefydlu pobl ifanc ond roedd gwaith amlasiantaeth wedi gwella. Roedd y gwaith ailsefydlu a gyflwynwyd o dan y cynllun peilot wedi gwella ystod o ddeilliannau i bobl ifanc yn cynnwys gwella hunanbarch a hyder.

**YOT 5**

Roedd yr RSP wedi meithrin gwaith amlasiantaeth i hyrwyddo ailsefydlu, yn cynnwys parodrwydd i ymrwymo i gefnogi adnoddau. I gychwyn, cyflogwyd RSW llawn-amser i gefnogi 10-15 o bobl ifanc drwy eu hebrwng ar weithgareddau dargyfeiriol a chyfryngu ar eu rhan. Fodd bynnag, disodlwyd y gwaith unigol yn ddiweddarach gan waith grŵp, yr oedd rhai o'r bobl gafodd gyfweliad yn teimlo ei fod yn llai effeithiol na'r gwaith unigol. Roedd ymgysylltiad pobl ifanc gydag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth wedi gwella ac roedd gwaith ailsefydlu yn golygu bod llety mwy priodol wedi'u gaffael i lawer o'r bobl ifanc.

**YOT 6**

Trafodwyd ailsefydlu mewn panel oedd yn bodoli eisoes yn YOT 6. Roedd hyn wedi esgor ar rannu gwybodaeth a gwaith partneriaeth mwy effeithiol. Nid oedd RSW penodedig ond roedd aelod o staff yn arwain ar ailsefydlu. Roedd yr YOT yn defnyddio pecynnau a gwasanaethau cefnogi gweithgareddau dargyfeiriol,

addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i gefnogi ailsefydlu pobl ifanc. Roedd pobl ifanc oedd yn gadael caethiwed wedi cyrchu llety mwy addas ac elwa ar y cyfryngu a'r gefnogaeth un i un a ddarparwyd drwy'r gwaith ailsefydlu.

Awdur: Liz Phillips, Robert Smith, Kerry Martin, Palak Mehta, a Ben Durbin. **Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg**

ISBN 978 0 7504 7492 4